**P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor, 25.11.20**

Annwyl aelodau'r pwyllgor deisebau,

Roeddwn yn hynod o falch i weld fod cynnig y ddeiseb i greu system o wybodaeth am hanes Cymru fyddai pawb yn ei ddysgu wedi pasio gyda chynifer o bleidleisiau! Diolch am eich gwaith yn symud y ddeiseb ar y broses o gael ei thrafod o flaen y Senedd.
Rwy'n obeithiol nawr fydd y ddeiseb yma'n creu sylfaen newydd i ddatblygu'r drafodaeth ymhellach gyda dysgu hanes Cymru mewn ysgolion, a chreu system o wybodaeth fydd pawb yn ei ddysgu, gan gynnwys creu adnoddau pendant i athrawon gael defnyddio er mwyn dysgu'r myfyrwyr.
Er fy mod i'n hyderus fod yr ewyllys yno i ddysgu hanes Cymru, rwy'n dal i fod yn bryderus am y ffordd mae'r Gweinidog addysg wedi mynd ati i ymateb gyda dysgu hanes Cymru. Mae Kirsty Williams yn ceisio dweud fod y cwricwlwm sy'n cael ei greu nawr am fod yn ddigonol i ddysgu hanes Cymru mewn ysgolion, ond mae'n glir iawn fod yr hyn mae'r cwricwlwm yn ei gynnig ddim yn ddigonol i gyrraedd y nod yno. Rwy'n bryderus o'r iaith mae'r Gweinidog yn ei ddefnyddio i ddisgrifio'r cwricwlwm, sef ei fod o'n rhoi'r "gallu" neu'r "cyfle" i'r athrawon ddysgu hanes Cymru, nid oes sicrwydd yn y geiriau yma i mi, ac nid ydynt hefyd yn fy ngwneud i'n hyderus i gredu fod y cwricwlwm fel y mae, am wneud dim i newid y broblem bresennol. Dwi eisiau dechrau clywed 'FYDD' y cwricwlwm 'YN' dysgu hanes Cymru, ac 'FYDD' cefnogaeth ac adnoddau ar gael i athrawon i lunio gwersi.

Dwi'n pryderu os na fydd y newidiadau yma'n cael ei gwneud i'r cwricwlwm yna rydym mewn peryg o greu "system loteri" annheg, lle fydd y cynnwys fydd y disgyblion yn ei ddysgu'n dibynnu ar eu hathrawon a'r ysgolion maent yn ei fynychu. Gallai hyn olygu byddai rhai disgyblion yn colli allan ar hanes Cymru'n gyfan gwbl! Dydw i ddim isio gweld yr anghyfiawnder yma'n digwydd.
Mae angen mynd ymlaen nawr er mwyn cael pwyllgor o haneswyr ac athrawon at ei gilydd i benderfynu beth fydd cynnwys yr hanes fydd bobl yn ei ddysgu mewn ysgolion, gan ddatblygu'r adnoddau, megis gwerslyfrau a chynlluniau gwersi, er mwyn i athrawon a disgyblion dderbyn y gefnogaeth maent yn ei haeddu i ddysgu am hanes y Genedl.

Rydw i eisoes wedi gyrru e-bost at y Gweinidog addysg yn ei holi am ei chamau nesaf gyda'r cynnig a basiwyd yn y Senedd, a heb dderbyn ymateb eto, ond deallaf fod y sefyllfa'n un anodd gyda'r amgylchiadau'r firws.

Gobeithio o waelod calon daw rhywbeth o'r canlyniad hwn yn y Senedd. Llwyddais i gerdded y 128 o filltiroedd ar y fferm (yr un pellter o Drawsfynydd, fy nghartref, i'r Senedd yng Nghaerdydd) ac rwy'n fwy na pharod i ymgyrchu eto ac eto os bo'r angen i sicrhau buddugoliaeth gyda'r ymgyrch.

Yn ddiffuant,

Elfed Wyn Jones.